



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Ymateb gwasanaethau
deintyddol ac iechyd y geg**

**Yn Gryno – Cymru Iachach:
ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

Cymru Iachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Ymateb **gwasanaethau deintyddol ac iechyd y geg**

Mae *Cymru Iachach* yn rhoi gweledigaeth i drawsnewid Cymru drwy ddefnyddio 'dull gweithredu system gyfan' sy'n canolbwyntio ar iechyd a llesiant, ac ar atal salwch. Mae'r ymateb hwn yn amlinellu sut bydd gwasanaethau deintyddol ac iechyd y geg yn parhau i ddatblygu yn unol â'r newidiadau yn anghenion y boblogaeth a sut byddant yn cyfrannu at y cynllun.

Mae ein gweledigaeth ar gyfer deintyddiaeth yn adeiladu ar athroniaeth Gofal Iechyd Darbodus ac rydyn ni'n cydnabod bod angen newid y system. Rydyn ni'n canolbwyntio ar drawsnewid, arloesi a chyflawni i ddiwallu'r angen. Bydd y gwerthoedd a'r egwyddorion cynllunio sy'n cael eu disgrifio yn y cynllun yn ein helpu i roi newid ar waith ym maes deintyddiaeth. Drwy fuddsoddi yn y timau sy'n darparu gofal deintyddol, cynnig arweinyddiaeth genedlaethol gref ac ymgysylltu parhaus bydd hi'n bosibl gweld newid yn digwydd yn gymharol gyflym ar draws Cymru. Rydyn ni'n dymuno:

- Gwella iechyd y boblogaeth, iechyd y geg a llesiant drwy roi mwy o ffocws ar atal;
- Gwella mynediad, profiad ac ansawdd gofal deintyddol i unigolion a theuluoedd;
- Cyfoethogi llesiant, gallu ac ymgysylltiad y gweithlu deintyddol; a
- Chynyddu'r gwerth a gyflawnir drwy gyllido gwasanaethau a rhaglenni deintyddol drwy wella, arloesi, defnyddio'r ymarfer gorau a chael gwared â gwastraff.

Mae'r pedwar nod yma'n dangos sut bydd gwasanaethau deintyddol ac iechyd y geg yn cyfrannu at y cynllun ac yn cyflawni'r Nod Pedwarplyg a gynigwyd gan yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru (2018).

Mae'r pedwar nod yn cefnogi gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (2015), deddfwriaeth sy'n galw ar gyrrff cyhoeddus i ystyried sut gallen nhw weithredu i oresgyn rhai o broblemau mwyaf parhaus cymdeithas (tloidi, anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd), i adeiladu dyfodol gwell i bobl Cymru. Maen nhw hefyd yn ategu egwyddorion Gofal Iechyd Darbodus gan adeiladu gweledigaeth o wasanaethau deintyddol yn y dyfodol lle bydd timau deintyddol, cleifion a'r cyhoedd yn cydweithio mewn system sy'n blaenoriaethu'r rheini sydd â'r angen mwyaf, er mwyn cyflawni canlyniadau gwell, gwella iechyd a llesiant, gyda gweithlu sydd wedi ymgysylltu i ddarparu gofal sy'n werth da am y buddsoddiad.

Roedd y Rhaglen Lywodraethu, *Symud Cymru Ymlaen*, yn nodi'r ymrwymadau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cyflawni i sicrhau gwelliannau a gwneud y gwahaniaeth mwyaf i fywydau pawb yng Nghymru. Mewn ymateb i gyhoeddi'r ddogfen hon, ym mis Mawrth 2017 cyhoeddodd y Prif Swyddog Deintyddol *Symud Ymlaen i Wella Iechyd y Geg a Gwasanaethau Deintyddol yng Nghymru*, a oedd yn amlinellu'r prif flaenoriaethau ar gyfer gwella iechyd y geg a deintyddiaeth yn y tymor byr i ganolig. Y tri phrif faes ar gyfer

gweithredu oedd: cryfhau a newid ffocws y Cynllun Gwên - rhaglen wella genedlaethol ar iechyd y geg i blant; dechrau rhaglen o Ddiwygio'r Contract Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol (GDS) i ddod o hyd i ffyrdd newydd o weithio mewn gwasanaethau deintyddol cyffredinol gofal sylfaenol; a gweithredu system genedlaethol o atgyfeiriadau electronig ar gyfer yr holl wasanaethau deintyddol arbenigol yng Nghymru.

Yn deillio o *Symud Cymru Ymlaen* daeth y strategaeth genedlaethol *Ffyniant i Bawb*. Mae hon yn cefnogi'r prif ymrwymadau, yn eu rhoi mewn cyd-destun tymor hir, ac yn dangos sut byddan nhw'n cyd-fynd â gwaith gwasanaethau cyhoeddus yn ehangach. Nod y ddogfen hon ydy gosod y sylfeini i gyflawni Cymru sy'n ffyniannus ac yn ddiogel, yn iach ac yn egniol, yn uchelgeisiol ac yn dysgu, ac sy'n unedig ac yn gysylltiedig. Mae'n ymwneud â chyflawni *Ffyniant i Bawb*.

Ffyniant i Bawb a Cymru Iachach

Mae'r ymateb hwn yn amlinellu sut bydd gwasanaethau deintyddol ac iechyd y geg yng Nghymru yn cyfrannu at gyflawni'r *Strategaeth Genedlaethol: Ffyniant i Bawb* ac yn sicrhau bod deintyddiaeth yn helpu i gyflawni'r weledigaeth a'r gwerthoedd sydd yn *Cymru Iachach*.

Mae iechyd y geg da yn rhan bwysig o lesiant. Mewn plant, mae'n cyfrannu at ddatblygiad corfforol, addysgol a chymdeithasol. Mewn oedolion, mae iechyd y geg da yn golygu y bydd pobl yn colli llai o waith oherwydd y ddannodd ac y byddan nhw'n cael ansawdd bywyd gwell oherwydd eu bod yn gallu bwyta a siarad heb deimlo'n anghyfforddus neu deimlo embaras. Rydyn ni'n gwybod bod iechyd y geg ymysg plant yng Nghymru yn gwella ar draws pob grŵp cymdeithasol. Mae'r ffaith bod y plant sy'n mynychu ysgolion yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn gweld y gwelliannau gorau o ran iechyd y geg yn deillio mae'n debyg o effaith y rhaglen iechyd y geg i'r boblogaeth Cynllun Gwên. Mae hyn yn brawf o waith caled y timau Cynllun Gwên ac ymrwymiad y teuluoedd a'r lleoliadau sydd wedi cymryd rhan yn y rhaglen. Fodd bynnag, nid da lle gellir gwell gan fod cyfraddau uchel o glefydau deintyddol yn dal i fodoli ar draws nifer o ardaloedd a chymunedau yng Nghymru, yn enwedig ymysg oedolion ifanc, pobl hŷn a'r rheini sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd. Mae'r rhain yn gyflyrau sy'n achosi poen ac sy'n annifyr, ac sy'n rhannu ffactorau risg cyffredin clefydau anhrosoglwyddadwy. Maen nhw'n ymwneud â diwylliant, tlodi ac ymddygiad ffordd o fyw. Nid yw'n hawdd mynd i'r afael â'r rhain, ond maen nhw'n faterion y mae gennym i gyd ddyletswydd i fynd i'r afael â nhw. Mae atal clefydau ar draws pob grŵp cymdeithasol yn allweddol er mwyn creu Cymru sy'n fwy cyfartal a ffyniannus. Bydd hyn ond yn digwydd os caiff iechyd y geg ei ystyried ochr yn ochr â'r ffactorau ehangach sy'n pennu iechyd, ac os cymerir camau ar bob lefel, o gynhwysiant ym mhob polisi perthnasol i weithredu.

Er mwyn gallu diwallu'r newidiadau yn anghenion iechyd y geg ein poblogaeth rydyn ni hefyd angen gwasanaethau deintyddol sy'n ffynnu lle mae gan bobl gyflogaeth sicr a gwerth chweil. Dylai'r gwasanaethau hyn ddarparu gofal iechyd darbodus sy'n ymateb i anghenion cleifion a'r cyhoedd. Er mwyn i ddeintyddiaeth ac iechyd y geg gyfrannu at bob un o nodau'r strategaeth genedlaethol, mae angen i ni symud ymlaen. Mae'r ymateb hwn yn amlinellu'r hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn mae angen ei wneud i gyflawni'r dyheadau hyn a sut.

Ffyniannus a Diogel

Gwasanaethau deintyddol sefydlog a sicr wedi'u harwain gan waith atal, ac wedi'u darparu gan dîm deintyddol sy'n newid.

Iach ac Egnïol

Darparu gofal effeithiol ac ymatebol i gleifion sy'n diogelu ac yn cynnal iechyd eu ceg mewn amgylchedd lle mae gwella a diogelu iechyd y geg yn cael ei integreiddio ym mhob maes polisi perthnasol.

Uchelgais a Dysgu

Timau deintyddol yn cyflawni eu potensial mewn systemau sy'n dysgu ac yn harneisio arloesedd technolegol

Unedig a Chysylltiedig

System o ofal deintyddol sy'n hygyrch ac yn ddi-dor sy'n blaenoriaethu'r rheini sydd â'r

Gwasanaethau deintyddol ac iechyd y geg yng Nghymru

Y weledigaeth a nodwyd yn adroddiad terfynol yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer Cymru oedd o un system ddi-dor o iechyd a gofal ar gyfer Cymru. Rydyn ni wedi ystyried beth mae hyn yn ei olygu ar gyfer gwasanaethau deintyddol ac iechyd y geg yng Nghymru a sut bydd hyn yn ein helpu i gynyddu cyfraniad deintyddiaeth at y Nod Pedwarplyg, er mwyn sicrhau na fydd unrhyw glaf yn disgyn drwy'r bwlch.

Mae cleifion a'r cyhoedd wrth galon unrhyw system iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd gwasanaethau deintyddol ac iechyd y geg yn adlewyrchu anghenion y boblogaeth maen nhw'n ei gwasanaethu, mewn lleoliadau lle gallan nhw ddarparu'r gofal mwyaf effeithiol, teg, hygyrch a derbyniol ar gyfer cleifion. Fodd bynnag, er y bydd safonau a chanlyniadau'r gofal yn anelu at fod yr un fath ledled Cymru, bydd y lleoliadau a'r cyd-destun ar gyfer darparu yn wahanol. Mae Cymru yn wlad fach ond amrywiol yn ddaearyddol. Efallai na fydd beth fydd yn gweithio mewn ardaloedd trefol dwys eu poblogaeth yn Ne Ddwyrain Cymru yn briodol ar gyfer cymunedau gwledig sydd â'u poblogaeth ar wasgar yng Nghanolbarth neu Orllewin Cymru. Felly mae hyn yn ymwneud â gosod egwyddorion a safonau cenedlaethol ond sicrhau hyblygrwydd er mwyn darparu yn lleol.

Er bod y rhan fwyaf o ddeintyddiaeth yn cael ei darparu mewn gofal sylfaenol, mae adegau pan fydd angen gofal ar gleifion gan wasanaethau arbenigol. Pan fydd hyn yn digwydd, bydd gwasanaethau'n cael eu cynnig mor agos at y cartref pryd bynnag y bydd hynny'n bosibl a heb drosglwyddo chwithig nac amhariadau nac oedi diangen. Dylai hyn ddigwydd ar bob lefel, gyda chydweithio rhwng Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol, Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol a Gwasanaethau Deintyddol Ysbytai o lefel y Bwrdd Iechyd, i lawr at ddarparwyr lleol sy'n ymwneud â gofal cleifion unigol. Y cam cyntaf ydy datblygu dealltwriaeth a rennir o gryfderau a doniau pob gwasanaeth, cyfathrebu gwell ar draws ffiniau, a gwerthfawrogi manteision cydweithio. Cyn i ni allu ymgysylltu'n effeithiol â chlystyrau gofal sylfaenol, mae angen i ni gydweithio'n well o fewn deintyddiaeth.

Er mwyn gwireddu ein gweledigaeth o wasanaethau deintyddol sy'n addas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, mae angen cael modelau gofal newydd a ddatblygir ar y cyd gan gynllunwyr gwasanaeth, cleifion a'r rheini sy'n darparu'r gofal. Mae maint a threfniadaeth gwasanaethau deintyddol yng Nghymru yn golygu bod gennym ni'r gallu a'r hyblygrwydd mewn strwythurau cynllunio lleol i ddatblygu ac i brofi ffyrdd eofn newydd o weithio sy'n cefnogi egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Drwy sefydlu systemau sydd bob tro'n dysgu, bydd hi'n bosibl cyflymu'r arloesi, er mwyn sicrhau canlyniadau a phrofiadau gwell i gleifion.

Y ffordd orau o ddatblygu a rhannu'r modelau i wella iechyd y geg a darparu gofal deintyddol yn y dyfodol ydy drwy adeiladu arweinyddiaeth mewn timau deintyddol. Rydym yn ffodus yng Nghymru gan fod gennym nifer o unigolion talentog sy'n llawn cymhelliant sy'n gweithio yn ein gwasanaethau deintyddol ac iechyd y geg. Mae arnom eisiau cefnogi'r holl weithwyr deintyddol proffesiynol, dim ots beth yw eu swydd, er mwyn cyflawni eu potensial a chyfrannu at waith ehangach clystyrau gofal sylfaenol er budd eu cymunedau fel arweinwyr deintyddol eithriadol.

Sut byddwn yn gwireddu ein gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau deintyddol ac iechyd y geg

Mae gennym weledigaeth eofn o ddatblygu gwasanaethau deintyddol ac iechyd y geg sy'n hybu atal clefydau deintyddol, ar gyfer lles unigolion ac ar y cyd, sy'n barod ac yn fodlon i ddiwallu'r anghenion nawr ac yn y dyfodol. Mae'r weledigaeth hon yn sail i'r saith nod llesiant ac mae'n hanfodol er mwyn gwireddu Cymru sy'n fwy ffyniannus, yn iachach ac sy'n fwy cyfartal. Byddwn yn gosod ein cynllun dan dair thema, ac un egwyddor arweiniol.

Sicrhau bod cleifion a'r cyhoedd wrth galon popeth a wnawn

Gwella Gwaith Atal

Gwasanaethau Deintyddol
sy'n Addas ar gyfer
Cenedlaethau'r Dyfodol

Datblygu Timau a
Rhwydweithiau Deintyddol

Dim ots pwy ydych chi, na beth ydy eich swydd mewn deintyddiaeth neu iechyd y geg, mae'r themâu yma yn berthnasol i chi. Mae'r ymateb hwn ar gyfer swyddogion gweithredol Byrddau Iechyd, timau contractio deintyddol a Gofal Sylfaenol, arweinwyr clinigol deintyddol, arbenigwyr, academyddion, cyffredinolwyr, gweithwyr proffesiynol gofal deintyddol ac, yn ymarferol, ysbytai, rhaglenni a gwasanaethau cymunedol. Mae'r rhain yn gynigion uchelgeisiol, sy'n adlewyrchu newid mewn cyfeiriad polisi, gan gefnogi cyflawni'r cynllun cenedlaethol *Cymru Iachach* a gan ddangos sut mae gwasanaethau deintyddol ac iechyd y geg yn bwriadu wynebu'r heriau a nodir yn yr Adolygiad Seneddol o Ofal Cymdeithasol ac Iechyd yng Nghymru. Mae'r ymateb yma yn ymwybodol o egwyddor *Unwaith i Gymru*, dymuniad i gynyddu'r integreiddiad a'r cydweithrediad rhwng sefydliadau iechyd a chaniatáu 'hyblygrwydd' rhanbarthol yn ystod gweithredu strategol, gan osgoi dyblygu diangen.

Gwella gwaith atal

Ble rydym ni nawr?

Rydym yn credu pan fo'n bosibl bod angen i ni atal clefydau deintyddol, fel pydredd yn y dannedd; mae angen i ni newid ein system i adlewyrchu hyn.

Er gwaethaf llwyddiannau'r rhaglen gwella iechyd y geg i'r boblogaeth plant yn y gymuned, *Cynllun Gwên*, mae cyfraddau clefydau deintyddol ymysg plant ac oedolion yn annerbyniol o uchel yng Nghymru. Yn 2015/16 mewn dosbarth o 30 o blant 5 oed, byddai un rhan o dair wedi cael profiad o bydredd, ac ar gyfartaledd byddai hyn wedi effeithio ar 3.6 o ddannedd y 10 plentyn hynny¹. Bob blwyddyn yng Nghymru mae dros 7,000 o blant yn cael anesthetig cyffredinol i gael trin eu dannedd, gan amlaf ar gyfer

¹ Morgan, M. and Monaghan, N (2017). PICTURE OF ORAL HEALTH 2017. DENTAL CARIES IN 5 YEAR OLDS (2015/2016). Prifysgol Caerdydd. Ar gael yn: <https://www.cardiff.ac.uk/research/explore/research-units/welsh-oral-health-information-unit>

tynnu dannedd wedi pydru². Mae yna bobl ifanc yn eu harddegau sy'n cael eu holl ddannedd wedi'u tynnu allan.

Mae nifer o'r clefydau deintyddol sy'n cael eu dioddef gan ein poblogaeth yn rhannu ffactorau risg cyffredin â chlefydau anhrosglwyddadwy eraill ac mae ein hamgylchedd a'n hymddygiad yn effeithio ar y rhain. Mae faint o ddiodydd sy'n cynnwys siwgr sy'n cael eu hyfed a'u hyfed yn aml yn cynyddu'r perygl o bydredd dannedd. Mae bron i ddwy ran o bump (21%) o blant 11-16 oed Cymru'n yfed y rhain ddwywaith y dydd neu'n amlach. Mae ysmegu ac yfed alcohol yn cyfrannu at risg uwch o ddatblygu canser y geg, er hynny mae 20% o oedolion Cymru yn ysmegu ac mae 41% yn yfed mwy o alcohol na faint sy'n cael ei argymhell gan ganllawiau cenedlaethol.

Er mai ein nod ydy atal clefydau, ar hyn o bryd, mae trefniadau contractau deintyddol yn gwobrwyo gwaith trin, yn hytrach na gwaith atal. Mae anhyblygrwydd diwylliant targedau Unedau Gweithgarwch Deintyddol y GIG yn llesteirio defnyddio cymysgedd sgiliau ac atal personol yn effeithiol. Mae cyfleoedd i aelodau eraill o'r tîm deintyddol ddarparu ymyriadau ataliol nad ydynt yn cael eu darparu ar hyn o bryd neu sy'n cael eu darparu gan ddeintyddion gan fwyaf.

Ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol

Ydy un lle mae:

- Cleifion yn cael eu grymuso i ddiogelu ac i wella iechyd eu ceg eu hunain.
- Mae ein gwasanaethau deintyddol ac iechyd y geg yn rhoi gwaith atal yn y canol
- Caiff iechyd y geg ei ystyried ym mhob lleoliad ac ym mhob polisi perthnasol

Cleifion sy'n diogelu ac yn gwella iechyd eu ceg eu hunain

Beth rydym yn ceisio ei wneud?

Cynnydd mewn llythrennedd iechyd y geg. Rydym eisiau grymuso cleifion i ddeall sut mae eu hymddygiad yn effeithio ar eu tebygolrwydd o ddatblygu clefyd deintyddol. Rydym eisiau i dimau deintyddol eu cefnogi i leihau eu risg o glefyd y geg a gwella iechyd eu ceg.

Pam ein bod yn gwneud hyn?

Y ffordd fwyaf effeithiol o atal clefyd y geg ydy drwy rymuso a chefnogi cleifion a'r cyhoedd i gynnal a diogelu iechyd eu ceg ac iechyd cegau eu dibynyddion.

Sut bydd hyn yn gweithio?

Bydd pob claf sy'n cael gwasanaeth gofal sylfaenol deintyddol gan y GIG yn cael asesiad risg ac anghenion iechyd y geg, gan ddefnyddio'r Asesiad o Risgiau ac Anghenion Iechyd y Geg Clinigol (ACORN), o leiaf unwaith y flwyddyn. Bydd y tîm deintyddol yn cefnogi

² Morgan, M. (2018). CHILD DENTAL GENERAL ANAESTHETICS IN WALES. Iechyd Cyhoeddus Cymru. Ar gael yn: <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/page/69210>

cleifion a'r rheini sy'n gofalu amdanynt i ddeall statws iechyd eu ceg a'r ymddygiad y gallen nhw eu newid i leihau eu risg o glefyd deintyddol.

Gwasanaethau deintyddol wedi'u harwain gan waith atal

Beth rydym yn ceisio ei wneud?

Mae arnom eisiau i wasanaethau deintyddol gofal sylfaenol gydweithio â chleifion a'r cyhoedd i ddarparu gofal personol ar sail tystiolaeth ac sydd wedi'i arwain gan waith atal sy'n ystyried anghenion a blaenoriaethau cleifion ar gyfer eu hiechyd y geg eu hunain. Mae'n cymryd amser a sgiliau i wneud hyn yn dda.

Pam ein bod yn gwneud hyn?

Mae cyflyrau a chlefydau cyffredin y geg yn rhai mae modd eu hatal gan fwyaf. Maen nhw'n bethau annifyr ac mae hi'n ddrud eu trin. Mae er budd gorau cleifion a'r cyhoedd ein bod yn atal ac yn rheoli clefydau pan fo'n bosibl.

Sut bydd hyn yn gweithio?

Bydd y rhaglen o ddiwygio'r contract Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol yn newid sut bydd timau deintyddol yn darparu gofal deintyddol a sut byddan nhw'n cael eu talu am hynny. Bydd hyn yn cynnwys cymhellion i gynyddu'r gwaith ataliol a defnyddio sgiliau ataliol yr holl dîm deintyddol er mwyn diwallu anghenion cleifion. Bydd mesurau cadarn o ran anghenion a chanlyniadau'n cael eu defnyddio er mwyn cofnodi'r heriau clinigol sy'n wynebu timau deintyddol ac effaith gwasanaethau deintyddol er mwyn sicrhau bod gwaith atal ar sail tystiolaeth yn cael ei ddarparu ('yr hyn rydym yn gwybod sy'n gweithio').

Iechyd y geg ym mhob lleoliad ac ym mhob polisi

Beth rydym yn ceisio ei wneud?

Mae arnom eisiau cyfrannu at unioni penderfyniadau ehangach iechyd ar gyfer poblogaeth Cymru. Mae arnom eisiau hybu amgylcheddau byw a gweithio sy'n ffafriol i wella a chynnal iechyd y geg a fydd maes o law yn cyfrannu at lesiant a ffyniant Cymru a phobl Cymru.

Pam ein bod yn gwneud hyn?

Rydym yn cydnabod bod darparu gwasanaethau deintyddol yn rhan fach o sicrhau iechyd y geg poblogaeth. Rydym yn gwybod, yn debyg i'r ffactorau sy'n sail i iechyd a llesiant yn gyffredinol, bod ffactorau cymdeithasol, amgylcheddol a ffordd o fyw yn chwarae rhan fwy o lawer wrth bennu iechyd y geg unigolyn. Yn y gorffennol, nid ydy iechyd y geg bob amser wedi cael ei ystyried wrth ystyried polisiâu sy'n ymwneud â'r ffactorau ehangach hyn.

Sut bydd hyn yn gweithio?

Rydym yn bwriadu codi proffil y cyfraniad y gall gwella iechyd y geg ei wneud i iechyd a llesiant yn fwy cyffredinol. Byddwn yn herio, ac yn disgwyl i eraill herio, pan na fydd iechyd y geg yn cael ei ystyried wrth ddatblygu polisiau a strategaethau iechyd y cyhoedd sy'n berthnasol i iechyd y geg ee alcohol, ysmegu, gordewdra ac imiwneiddio yn erbyn Feirws Papiloma Dynol.

Bydd lleoliadau addysg, gofal iechyd a chymunedol yn cael eu cefnogi i ddiogelu a chefnogi iechyd y geg, ee drwy roi'r gorau i werthu diodydd sy'n cynnwys siwgr a byrbrydau sy'n llawn siwgr a chynnig dewisiadau iachach yn eu lle.

Ein Hymrwymadau a'n Camau Gweithredu

Rydym...

- Wedi ymrwymo i barhau i fuddsoddi yn y Cynllun Gwên, y rhaglen gwella iechyd y geg genedlaethol ar gyfer y boblogaeth. Uchelgais gyfredol y rhaglen hon sydd wedi'i thargedu ydy cadw plant yn rhydd rhag pydredd erbyn iddyn nhw fod yn 5 oed. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar atal clefydau deintyddol ymysg yr ifanc iawn ac mae'n cyflawni hyn drwy gydweithredu ar draws amrywiaeth o leoliadau a phroffesiynau. Caiff y rhaglen nawr ei harwain drwy grŵp llywio cenedlaethol ac mae amcanion strategol ei ffocws newydd wedi'u nodi yng Nghylchlythyr Iechyd Cymru WHC (2017) Rhif 23. Bydd grwpiau oed a grwpiau blaenoriaeth eraill yn cael eu hystyried dros amser.
- Gweithio gyda thimau a chyrrff deintyddol yng Nghymru i ganolbwyntio ar anghenion atal rhagweithiol pobl hŷn a'r rheini sydd mewn ysbytai.
- Cynhyrchu a rhannu 'disgwyliadau' o ddarparu gofal ataliol mewn gofal deintyddol sylfaenol y gall timau deintyddol eu defnyddio i gefnogi cleifion i werthfawrogi a chynnal iechyd eu ceg.

Byddwn yn...

- Parhau i ddatblygu rhaglen o ddiwygio contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol.
- Disgwyl i Fyrddau Iechyd, Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG a thimau deintyddol fesur yr anghenion a'r canlyniadau ym mhob agwedd o ddarparu gofal deintyddol.
- Defnyddio'r 'disgwyliadau' a fydd wedi'u cyhoeddi ar gyfer gofal ataliol fel nodau i ddarparu gofal o ansawdd.
- Darparu adnoddau ac offer i dimau deintyddol i gefnogi darparu gofal ataliol. Un enghraifft o hyd ydy *Making Prevention Work in Practice*, cwrs sy'n ceisio rhoi i weithwyr proffesiynol gofal deintyddol (nyrsys deintyddol yn benodol) y sgiliau ychwanegol i wneud gwaith ataliol ar sail ymarfer a defnyddio'r farnais fflworid drwy ddull gweithredu hyfforddi'r hyfforddwr.
- Gweithio i sicrhau bod iechyd y geg yn cael ei gynnwys ym mhob maes polisi perthnasol a gyda'r holl sefydliadau perthnasol ee Awdurdodau Lleol.

- Archwilio modelau arloesol ar gyfer gofal cartref a gofal ataliol allgymorth ar gyfer cleifion nad ydynt yn gallu neu sy'n amharod i fynd i leoliadau gofal sylfaenol.

Sicrhau bod cleifion a'r cyhoedd wrth galon popeth a wnawn

Ble rydym ni nawr?

Mae ein gwasanaethau deintyddol yn adnodd i bobl Cymru; ond nid ydy pawb sydd eisiau, neu sydd angen, cael gfael ar ofal y GIG yn gallu gwneud hynny.

Mae gwasanaethau deintyddol y GIG yng Nghymru yn cyrraedd miliynau o gleifion. Roedd ychydig dros hanner oedolion (52%) a dwy ran o dair o blant (66%) wedi defnyddio Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol y GIG yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Cafodd miloedd yn fwy ofal gan Wasanaethau Deintyddol Cymunedol, gofal deintyddol brys, neu driniaeth gan wasanaethau arbenigol. Fodd bynnag, mae cyfleoedd ar gael i gynyddu'r mynediad at ddeintyddiaeth y GIG ar gyfer y rheini sydd eisiau hynny.

Er mwyn sicrhau gwasanaethau deintyddol i gyfran fwy o'r boblogaeth, rhaid i ni gyflawni'r canlyniadau gorau i'r rheini sydd â'r angen mwyaf drwy ddefnyddio'r adnoddau sydd gennym. Mae tystiolaeth bod swm anghymesur o adnoddau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol y GIG yn cael ei wario ar garfan o gleifion sydd â chyfraddau cymharol isel o glefydau'r geg ac a allai fod yn mynd i weld y deintydd yn rhy aml. Ceir enghreifftiau hefyd o aneffeithlonrwydd yn y rhyngwyneb gofal sylfaenol ac eilaidd. Er bod pethau wedi dechrau newid, er enghraifft mae rhaglen sylweddol o ddiwygio contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol yn y saith Bwrdd Iechyd, ein huchelgais ydy gweld yr arloesi hyn yn cyflymu. Yn yr un modd, er bod cydbwysedd darparu gofal arbenigol wedi dechrau symud o ysbytai i leoliadau cymunedol mewn rhai ardaloedd; mae Byrddau Iechyd eraill wedi bod yn araf i achub ar y cyfle i ddarparu gofal yn nes at gartrefi'r cleifion.

Ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol

Ydy:

- Gofal deintyddol hygyrch
- Gofal effeithiol ac ymatebol
- System ofal ddi-dor

Gofal deintyddol hygyrch

Beth rydym yn ceisio ei wneud?

Mae arnom eisiau cynyddu'r mynediad at ddeintyddiaeth gofal sylfaenol y GIG a darparu gwasanaethau deintyddol (sylfaenol, arbenigol neu ofal brys) sy'n diwallu anghenion cymunedau lleol.

Pam ein bod yn gwneud hyn?

Rydym yn credu y dylai gofal fod o fewn cyrraedd y rheini sydd â'r anghenion iechyd mwyaf yn gyntaf – egwyddor Gofal Iechyd Darbodus. Ein hymrwymiad ydy cynyddu mynediad at ofal deintyddol y GIG, yn enwedig i gleifion nad ydyn nhw wedi gweld deintydd yn ystod y ddwy flynedd diwethaf (un flwyddyn ar gyfer plant), drwy ddefnyddio'r adnoddau sydd gennym yn fwy effeithiol ac effeithlon.

Sut bydd hyn yn gweithio?

Bydd gwasanaethau'n cael eu cynllunio a'u darparu yn ôl yr angen, gan roi ystyriaeth benodol i sut mae mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran mynediad. Bydd gofal yn cael ei ddarparu mewn lleoliadau sy'n hwyluso darparu gofal diogel, cost-effeithiol ac amserol.

Gofal effeithiol ac ymatebol

Beth rydym yn ceisio ei wneud?

Mwy o ffocws ar driniaethau ac ymyriadau deintyddol sydd wedi cael eu profi i wella a chynnal iechyd y geg. Ar yr un pryd, dylai gofal ystyried safbwyntiau a gwerthoedd cleifion am eu hiechyd y geg, gan gynnwys eu hawl i wrthod gofal rheolaidd os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Pam ein bod yn gwneud hyn?

Mae arnom eisiau cyflawni'r canlyniadau gorau posibl i gleifion o'r adnoddau deintyddol sydd gennym, a blaenoriaethu cleifion yn ôl anghenion a risg. Mae'r rhan fwyaf o driniaethau deintyddol sy'n cael eu darparu yn GIG Cymru yn cael eu cefnogi gan sylfaen gref o dystiolaeth wyddonol. Fodd bynnag, mae nifer fach o driniaethau lle nad ydy'r fantais i gleifion mor amlwg.

Sut bydd hyn yn gweithio?

Dylai Byrddau Iechyd flaenoriaethu rheoli cyflyrau brys yn gyflym ac yn effeithiol. Dylid cynnig gofal rheolaidd i'r rheini sy'n dymuno ei gael. Pan fo'n bosibl, dylai cynlluniau gofal sicrhau bod prosesau clefydau yn cael eu sefydlogi, a dylai'r rhain ystyried ymateb claf i gyngor am addasu ei ymddygiad a'r cyd-destun ar gyfer darparu'r gofal. Cytunir ar gyfnodau galw yn ôl deintyddol dilynol rhwng cleifion a'u tîm deintyddol, yn ôl anghenion y cleifion a'r perygl o glefyd.

System ofal ddi-dor

Beth rydym yn ceisio ei wneud?

Rydym yn gobeithio cyflawni mwy o integreiddiad, dealltwriaeth, a chydweithrediad ar draws ffiniau gwasanaeth (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol, Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol a gwasanaethau arbenigol). Caiff hyn ei ategu gan wybodaeth well

am iechyd y geg i gyfrannu at y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau deintyddol hygrych (gan gynnwys darpariaeth frys ac arbenigol).

Pam ein bod yn gwneud hyn?

Bydd chwalu'r rhwystrau sy'n bodoli rhwng Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol a Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol a gwasanaethau arbenigol yn gwella canlyniadau a phrofiadau cleifion sydd angen gofal brys, arbenigol neu yn y cartref a bydd yn lleihau gwastraff.

Sut bydd hyn yn gweithio?

Mae gwasanaethau gwell yn dechrau gyda dealltwriaeth drwyadl o anghenion y boblogaeth. Mae data gwell am anghenion deintyddol a mynediad at ofal yn caniatáu cynllunio a monitro gwasanaethau deintyddol integredig sy'n cael eu harwain gan anghenion ar lefel Bwrdd Iechyd. Pan fo'n bosibl, darperir mwy ac amrywiaeth well o wasanaethau allgymorth mewn gofal sylfaenol, wedi'u hategu gan oruchwyliaeth arbenigol. Bydd arweinyddiaeth glinigol ddeintyddol gryfach mewn Byrddau Iechyd yn goruchwyllo integreiddio gwasanaethau deintyddol a gwasanaethau gofal iechyd eraill yn well.

Ymrwymadau a'n Camau Gweithredu

Rydym...

- Yn buddsoddi mewn gofal deintyddol sylfaenol ac yn sicrhau bod Byrddau Iechyd yn defnyddio'r buddsoddiad mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud mewn deintyddiaeth ac iechyd y geg yn unol â'r bwriad.
- Buddsoddi mewn gwybodaeth am ofal iechyd y geg i ategu rhaglenni epidemiolegol sydd wedi eu sefydlu drwy Uned Gwybodaeth Iechyd Geneuol Cymru. Rydym yn ehangu ein harolygon epidemiolegol i grwpiau oedolion (arolwg 18-25 ar hyn o bryd).
- Gweithio gyda Byrddau Iechyd i gryfhau'r ffordd maen nhw'n darparu gofal deintyddol rheolaidd a brys mewn ffordd amserol ac wedi'i harwain gan anghenion.
- Wedi ymrwymo i ddiwygio'r contractau ar gyfer Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol. Ar hyn o bryd rydym yn profi teclyn asesu risg ac anghenion wrth ymyl y gadair (ACORN) ac yn datblygu teclyn ar gyfer cleifion y bydd timau deintyddol yn gallu ei ddefnyddio i gyfleu anghenion a risg iechyd y geg.

Byddwn yn...

- Cynyddu nifer y practisau sy'n ymwneud â'r rhaglen i ddiwygio contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol y GIG.
- Sefydlu Rhwydwaith Ymchwil Deintyddol Cymru mewn ymarfer gofal deintyddol sylfaenol

- Penodi arbenigwyr i weithio'r tu allan i ysbytai, ee dau Ymgynghorydd/Arbenigwr mewn Deintyddiaeth Bediatrig a fydd wedi'u lleoli mewn gofal sylfaenol.
- Disgwyl i Fyrddau Iechyd nad ydyn nhw eisoes wedi gwneud hynny, i benodi Arweinydd Deintyddol Clinigol (lefel Cyfarwyddwr Cyswllt) (3 mewn lle, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, Bwrdd Iechyd Hywel Dda, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys).
- Sicrhau na fydd Byrddau Iechyd yn dibynnu'n llwyr ar ddarparu Unedau Gweithgarwch Deintyddol/Unedau Gweithgarwch Orthodontig i fonitro gofal deintyddol neu i gaffael gwasanaethau newydd
- Disgwyl i fyrddau Iechyd gefnogi darparwyr deintyddol sy'n cael anawsterau i gyflawni ymrwymadau dan gontract yn ystod y flwyddyn drwy ddefnyddio egwyddorion diwygio contract a pheidio â disgwyl i adennill arian ar ddiwedd y flwyddyn.
- Gwella'r wybodaeth sydd ar gael i gleifion a'r cyhoedd ar: hunanofal a mynediad at wasanaethau deintyddol, gan gynnwys y triniaethau sydd ar gael, gofal arbenigol, a ffioedd perthnasol i gleifion.
- Cofnodi'r angen a deall y galw am bob gwasanaeth deintyddol arbenigol drwy system rheoli atgyfeiriadau. Cofnodi mynediad yr holl boblogaeth at Wasanaethau Deintyddol Cymunedol. Cofnodi anghenion a chanlyniadau cleifion drwy ffurflenni FP17W ar gyfer Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol/Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol/Gwasanaethau Deintyddol Personol. Cofnodi a chyfleu anghenion a risg glinigol, yn ogystal â gweithgareddau clinigol, ym mhob gwasanaeth gofal deintyddol sylfaenol

Gwasanaethau deintyddol sy'n addas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

Ble rydym ni nawr?

Mae poblogaeth Cymru yn newid, ac mae eu hanghenion deintyddol yn newid hefyd; rydym angen gwasanaethau deintyddol sy'n barod i ddiwallu'r anghenion hyn.

Er bod amlygrwydd pydredd yn y dannedd wedi disgyn ymysg y boblogaeth drwyddi draw, mae nifer o blant o hyd sy'n dioddef lefel anghymesur o'r clefyd. Yn yr un modd, er bod amlygrwydd pydredd ymysg oedolion wedi disgyn, mae nifer o bobl yn mynd yn hŷn, gan gadw eu dannedd naturiol, gydag anghenion deintyddol sy'n dod yn fwy ac yn fwy cymhleth. Mae nifer yr achosion o ganser y geg ar gynnydd hefyd. Mae arnom angen gwasanaethau deintyddol sydd mewn sefyllfa dda i reoli'r newidiadau yn anghenion Iechyd y geg poblogaeth Cymru a rhoi cyngor a thriniaethau ataliol amserol a fydd yn lleihau'r trallod a achosir gan y cyflyrau hyn am flynyddoedd i ddod.

Ar hyn o bryd, mae practisau deintyddol sydd â chontractau deintyddol y GIG yn cael gwerth contract blyneddol sefydlog ar gyfer darparu gweithgareddau trin mewn bandiau.

Nid ydy'r trefniadau hyn yn cymhell atal yn benodol na defnyddio'r cymysgedd sgiliau, fodd bynnag mae rhai darparwyr yn cyflawni ar hyn beth bynnag a dylid eu cydnabod.

Er bod Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi'n ddiweddar mewn gofal deintyddol, mae rhai Byrddau Iechyd wedi dewis clymu'r arian 'mynediad' yma yn dynn i dargedau Unedau Gweithgarwch Deintyddol yn unig, nad ydynt bob tro yn gwella mynediad cleifion nac yn darparu gofal wedi'i arwain gan waith atal. Ar ben hynny, caiff rhai o'r adnoddau mae Llywodraeth Cymru yn eu buddsoddi mewn gofal deintyddol eu colli wrth i'r Byrddau Iechyd eu cymryd yn ôl, gan eu bod yn defnyddio modelau o gynllunio ariannol sydd pur anaml yn dychwelyd y buddsoddiad hwn i ddeintyddiaeth.

Ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol

Ydy un lle:

- Mae gennym wasanaethau deintyddol sefydlog a sicr
- Datblygir systemau sydd bob tro'n dysgu
- Mae arloesi technolegol yn cael ei harneisio

Gwasanaethau deintyddol sefydlog a sicr

Beth rydym yn ceisio ei wneud?

Gwasanaethau deintyddol sy'n gynaliadwy ac yn sicr yn ariannol sy'n cyflawni gwerth gwych ac sy'n cael eu hariannu i ddarparu gofal safonol sydd wedi cael ei arwain gan waith ataliol. Caiff hyn ei gefnogi gan fodelau contract a systemau monitro sy'n cymhell atal, cymysgedd sgiliau a darparu gofal ar sail tystiolaeth. Mae rhan o hyn yn golygu defnyddio'r adnoddau sydd eisoes ar gael yn fwy effeithiol er mwyn gwella'r canlyniadau i gleifion a lleihau ôl troed carbon deintyddiaeth.

Pam ein bod yn gwneud hyn?

Er mwyn sicrhau bod gwasanaethau deintyddol yn addas i'r dyfodol er mwyn diwallu heriau amgylcheddol ac iechyd y geg cenedlaethau'r dyfodol a chyfrannu at gyflawni nodau llesiant Llywodraeth Cymru. Ein dyhead ydy bod practisau deintyddol ledled Cymru yn bodoli fel busnesau cynaliadwy sy'n ffynnu ac sy'n cynnig gofal a chyflogaeth i gymunedau lleol.

Sut bydd hyn yn gweithio?

Byddwn yn annog Byrddau Iechyd i symud i ffwrdd oddi wrth fentrau mynediad bach sydd â chyfyngiad amser. Yn lle hynny, byddwn yn eu hannog i ddatblygu dulliau arloesol sy'n cynnig cyllid cylchol gyda chontractau hirach, sy'n cynnig sefydlogrwydd, ffocws ar ganlyniadau a chyfleoedd i dyfu mewn gwasanaethau presennol.

Byddwn yn gweithio i leihau pa mor aml y rhoddir ymyriadau deintyddol sydd ag effaith gadarnhaol gyfyngedig ar iechyd y geg, i hyrwyddo cynaliadwyedd gwasanaethau

deintyddol a lleihau ôl troed carbon deintyddiaeth, sydd gan fwyaf yn digwydd oherwydd archwiliadau rheolaidd ac a ailadroddir ac apwyntiadau 'digennu a llathru'. Byddwn hefyd yn edrych ar strategaethau i gydnabod a lleihau y colledion mewn cynhyrchiant a geir pan na fydd cleifion yn dod i'w hapwyntiadau.

Systemau sydd bob tro'n dysgu

Beth rydym yn ceisio ei wneud?

Cyflymu'r gwelliannau drwy roi'r cyfle i dimau clinigol arloesi. Mae arnom eisiau timau deintyddol o bob maint sy'n dilyn athroniaeth o wella'n gyson er budd cleifion a'r cyhoedd.

Pam ein bod yn gwneud hyn?

Er mwyn sicrhau bod gofal deintyddol y GIG yn gynaliadwy, yn ddiogel, yn canolbwyntio ar yr unigolyn, yn effeithiol ac yn effeithlon. Rydym yn gwybod bod gan yr unigolion hynny sy'n darparu gofal deintyddol o ddod i ddydd syniadau bob amser bron ynghylch sut gellid gwella'r gofal. Ein huchelgais ydy bod timau clinigol yn teimlo eu bod wedi cael eu grymuso i wneud y newidiadau hyn i'w harferion. Mewn system sydd dan bwysau mae hi'n hawdd gostwng disgwyliadau, mae arnom eisiau i bawb sy'n ymwneud â'r gwaith o gynllunio a darparu'r gofal fod â dyheadau uchel ar gyfer ansawdd eu gwasanaethau.

Sut bydd hyn yn gweithio?

Bydd dull integredig ar draws sefydliadau i wella ansawdd mewn gwasanaethau deintyddol. Byddwn yn meincnodi mwy a mwy i ddal Byrddau Iechyd i gyfrif, drwy ddangos 'effaith goll' arloesedd sy'n cael ei lesteirio. Maes o law, rydym yn disgwyl i Fyrddau Iechyd ddefnyddio ffyrdd newydd o fonitro a darparu adborth ar berfformiad i dimau deintyddol, sy'n rhagori ar ddarparu Unedau Gweithgarwch Deintyddol/Unedau Gweithgarwch Orthodontig. Rydym yn disgwyl i bawb mewn gwasanaethau deintyddol harneisio'r cyfle i ddysgu a gwella o ganlyniadau llai ffafriol, gan gynnwys diagnosis cam hwyr o ganser y geg.

Harneisio arloesi technolegol

Beth rydym yn ceisio ei wneud?

Systemau deintyddol sy'n defnyddio technoleg yn well er mwyn gallu darparu gofal sy'n fwy effeithiol ac effeithlon.

Pam ein bod yn gwneud hyn?

Bydd hyn yn ein helpu i wireddu ein gweledigaeth o ofal di-dor, ymatebol ac effeithiol. Bydd gwybodaeth well am fynediad, atgyfeiriadau, risg, anghenion a chanlyniadau cleifion yn arwain at gynllunio a darparu gwasanaethau'n fwy effeithlon drwy roi cyd-destun i'r gweithgareddau.

Sut bydd hyn yn gweithio?

Byddwn yn buddsoddi mewn atebion technolegol a fydd yn darparu gwybodaeth a fydd yn gwella'r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau deintyddol a byddwn yn disgwyl i Fyrddau lechyd a darparwyr gwasanaethau deintyddol wneud yr un peth. Dylai un ffocws ar gyfer arloesi technolegol fod yn ymwneud ag atebion i drosglwyddo cleifion rhwng gwasanaethau'n well.

Ymrwymadau a'n Camau Gweithredu

Rydym...

- Yn dal Byrddau lechyd i gyfrif am fuddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn rhaglenni a gwasanaethau deintyddol.
- Yn buddsoddi mewn system rheoli atgyfeiriadau electronig genedlaethol ar gyfer pob arbenigedd deintyddol. Erbyn 2020 bydd pob atgyfeiriad deintyddol yng Nghymru yn cael ei wneud drwy ddefnyddio system rheoli atgyfeiriadau electronig.
- Wedi ymrwmo i ddiwygio contractau a defnyddio dulliau arloesol o ran darparu gofal deintyddol gan ganolbwyntio ar werth, anghenion a chanlyniadau.
- Yn mesur ac yn gwella ansawdd yn fwy mewn gwasanaethau deintyddol cyffredinol drwy'r System Sicrhau Ansawdd Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol sydd wedi cael ei diweddarau. Maes o law bydd hyn yn cyfrannu at ffrydiau gwaith Addysg a Gwella lechyd Cymru.
- Yn symud at system o gyflwyno holl ddata gweithgareddau gofal deintyddol sylfaenol y GIG yn electronig. Dyma'r cam i gyflwyno pob FP17W a FP170W yn electronig o fis Mai 2019 ymlaen
- Yn cofnodi pob mynediad ac angen mewn gofal sylfaenol ar lwyfan electronig ar sail cleifion drwy ffurflenni FP17W.

Byddwn yn...

- Disgwyl bod yr wybodaeth a gesglir ar anghenion a'r galw am ofal arbenigol gan y system rheoli atgyfeiriadau electronig yn cael ei defnyddio i gynllunio ac ailddylunio gwella'r gwasanaeth.
- Adolygu gweithdrefnau i sicrhau bod cwynion am weithwyr deintyddol proffesiynol yng Nghymru yn cael eu trin ar lefel leol yn gyntaf, a bod y gwersi a ddysgir yn cael eu rhannu yng Nghymru.
- Defnyddio cyllid Archwilio Clinigol ac Adolygiad gan Gymheiriaid (CAPR) i ganiatáu i dimau deintyddol wreiddio methodoleg gwella ansawdd yn eu harferion a chydweithio i wreiddio egwyddorion diwygio contract i'w gofal.
- Ystyried gwerth Uned Gweithgarwch Deintyddol/Uned Gweithgarwch Orthodontig isaf derfynol y cytunir arno'n genedlaethol. Ymarfer gorau fydd ein disgwyliad ar

gyfer y rheini sydd ag Uned Gweithgarwch Deintyddol/Uned Gweithgarwch Orthodontig ar y lefel uchaf.

- Edrych ar fodelau arloesol lle mae practisau cyfredol yn cydweithio i ddarparu gofal i boblogaethau llai mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell.
- Disgwyl i Iechyd Cyhoeddus Cymru, y Rhaglen 1000 o Fywydau, ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru gydweithio i weithredu prosiectau gwella ansawdd sy'n ymwneud ag iechyd y geg mewn lleoliadau iechyd a gofal ac alinio â'r rhaglen i ddiwygio contractau.
- Cydweithio ag Addysg a Gwella Iechyd Cymru a sefydliadau hyfforddi i ddatblygu a darparu'r gweithlu deintyddol sydd ei angen ar gyfer y dyfodol.

Datblygu timau a rhwydweithiau deintyddol

Ble rydym ni nawr?

Timau deintyddol ydy ein cryfder pennaf ac ni allwn wireddu ein gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau deintyddol ac iechyd y geg heb eu partneriaeth.

Mae timau deintyddol yn cynnwys gweithwyr proffesiynol ymroddedig sydd wedi cael llawer iawn o hyfforddiant, ac mae nifer ohonynt eisiau parhau i ddydd. Fodd bynnag, ceir arwyddion bod rhai wedi colli cymhelliant, gan deimlo nad ydy eu sgiliau'n cael eu gwerthfawrogi ac nad ydy eu potensial yn cael ei gyflawni.

Ar hyn o bryd deintyddion sy'n darparu'r rhan fwyaf o ddeintyddiaeth yn y DU. Fodd bynnag, byddai modd i weithwyr proffesiynol gofal deintyddol ddarparu cyfran sylweddol o ofal gan weithio hyd eithaf eu hymarfer. Er bod rhai enghreifftiau cryf o dimau a gwasanaethau deintyddol sydd wedi harneisio eu cymysgedd sgiliau i gynyddu faint o ofal sydd wedi'i arwain gan waith atal a ddarperir, rydym yn gobeithio gwneud hyn yn nodwedd gyffredinol mewn gwasanaethau deintyddol yng Nghymru.

Mae clystyrau gofal sylfaenol wedi gweithio'n dda ar gyfer meddygfeydd, ond hyd yma, cyfyngedig fu ymgysylltiad deintyddol mewn clystyrau. Mae cyfleoedd i rwydweithiau o dimau deintyddol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol, Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol a gwasanaethau arbenigol) gydweithio i gynyddu effeithlonrwydd, gwella sefydlogrwydd darparu gwasanaethau, a dysgu gwerth cydweithio mewn cymdogaeth.

Ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol

Ydy un lle ceir:

- Timau deintyddol sy'n newid
- Timau deintyddol sy'n cyflawni eu potensial
- Ffyrdd eofn newydd o weithio

Tîm deintyddol sy'n newid

Beth rydym yn ceisio ei wneud?

Defnyddio cymysgedd sgiliau'n effeithiol mewn timau practis deintyddol a gwasanaethau arbenigol. Mae arnom eisiau gweld cynnydd yn nifer yr hylenyddion, therapyddion a nyrsys deintyddol sydd â sgiliau ychwanegol sy'n cael eu hyfforddi a'u cadw yng Nghymru, ac sy'n gweithio hyd eithaf eu hymarfer.

Pam ein bod yn gwneud hyn?

Er mwyn creu tîm deintyddol sy'n cael ei arwain gan waith ataliol ac sy'n effeithlon ac sy'n gallu diwallu anghenion cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru.

Sut bydd hyn yn gweithio?

Bydd y cyflenwad o weithwyr proffesiynol gofal deintyddol o raglenni hyfforddi ar draws Cymru yn cyfateb i'r galw yn y dyfodol o'r sector gofal iechyd deintyddol. Caiff hyn ei sbarduno gan newidiadau yng nghontract deintyddol y GIG a chaiff ei ategu gan fuddsoddiad newydd gan Lywodraeth Cymru.

Timau deintyddol sy'n cyflawni eu potensial

Beth rydym yn ceisio ei wneud?

Mwy o fynediad at gyfleoedd cyflogaeth yn y tîm deintyddol. Timau deintyddol sy'n llawn cymhelliant ac sy'n cael eu cefnogi i gyrraedd eu nodau proffesiynol a strwythur gyrfa ar gyfer gweithwyr proffesiynol gofal deintyddol.

Pam ein bod yn gwneud hyn?

Er mwyn datblygu'r sgiliau mewn timau deintyddol i ddarparu gofal effeithiol sy'n cael ei arwain gan waith atal sy'n cyflawni'r canlyniadau gorau o'r adnoddau sydd ar gael. Er mwyn creu practisau deintyddol sy'n fusnesau cynaliadwy sy'n cynnig cyflogaeth i gymunedau lleol.

Sut bydd hyn yn gweithio?

Datblygu grisiau symudol sgiliau er mwyn caniatáu i'r *holl* weithwyr deintyddol proffesiynol ennill y sgiliau a'r cymwyseddau er mwyn datblygu'n broffesiynol; gan feithrin capasiti, diddordebau a chymwyseddau ar bob lefel.

Drwy feithrin capasiti, yn enwedig mewn perthynas â darparu gofal a chynghor ataliol gan weithwyr proffesiynol gofal deintyddol, bydd hyn yn rhyddhau capasiti clinigol mewn mannau eraill yn y tîm deintyddol (yn enwedig ymysg ymarferwyr deintyddol). Ein gweledigaeth ni ydy y bydd yr ymarferwyr hyn wedyn yn cael cyfleoedd i weithio at ennill sgiliau a chymwyseddau ychwanegol mewn meysydd fel endodonteg, deintyddiaeth bediatrig, a mân lawdriniaethau ar y geg drwy leoliadau clinigol gydag arbenigwyr sydd wedi cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Maes o law dylai hyn hwyluso datblygu trefniadau rhannu gofal rhwng arbenigwyr ac ymarferwyr gofal sylfaenol a gwella cyfathrebu ar draws ffiniau mewn gofal deintyddol.

Ffyrdd eofn newydd o weithio

Beth rydym yn ceisio ei wneud?

Timau deintyddol gofal sylfaenol sy'n cydweithio i fynd i'r afael ag anghenion eu poblogaeth leol. Rhwydweithiau deintyddol sy'n cydweithredu i wella gofal cleifion ac sy'n rhannu dysgu. Mae arnom eisiau i Fyrddau Iechyd annog eu timau deintyddol arloesol i arloesi ac i gymryd risgiau a galluogi'r rhain i roi cynnig ar ffyrdd eofn newydd o weithio.

Pam ein bod yn gwneud hyn?

Mae gan gymunedau gwahanol heriau iechyd y geg gwahanol. Mae'r timau deintyddol sy'n gweithio yn y cymunedau hyn mewn sefyllfa dda i ddod hyd i atebion i'r heriau hyn.

Mae timau deintyddol sy'n cydweithio ag eraill yn fwy gwydn ac yn gallu defnyddio adnoddau mewn ffyrdd sy'n dangos mwy o ddychymyg. Fodd bynnag, mae ymddygiad swyddogion gweithredol lleol a'r capasiti mewn contractau deintyddol mewn Byrddau Iechyd yn chwarae rhan ganolog yn llwyddiant neu fethiant newid system.

Sut bydd hyn yn gweithio?

Ceir cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru ar gyfer datblygu ffederasiwn deintyddol, gweithio mewn clystyrau, a modelau gofal arloesol. Mae angen i Fyrddau Iechyd werthfawrogi gydag ychydig o adnoddau ychwanegol neu drwy lacio'r system, y bydd arweinwyr deintyddol lleol yn dod i'r amlwg ac yn ffynnu.

Ymrwymïadau a'n Camau Gweithredu

Rydym...

- Yn gweithio gyda Byrddau Iechyd i gofleidio ffyrdd newydd o weithio'n arloesol mewn deintyddiaeth.
- Yn sefydlu grŵp o bractisau deintyddol arweiniol sy'n gweithio ar ddiwygio contractau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.
- Yn adolygu'r cwricwlwm ac yn monitro ansawdd hyfforddiant nyrsys deintyddol yng Nghymru.
- Sicrhau bod caffael gan y Byrddau Iechyd yn ystyried y cyfleoedd i ddefnyddio sgiliau'r tîm deintyddol i gyd.
- Yn edrych ar ffyrdd o ddefnyddio deintyddiaeth fel cerbyd i ehangu mynediad at gyflogaeth a datblygu sgiliau.

Byddwn yn...

- Ymestyn y cyfleoedd i bractisau gydweithio i ardaloedd eraill o Gymru.
- Sefydlu Cyfadran o Weithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol dan arweiniad prifysgol i weithio gyda cholegau addysg bellach a darparwyr hyfforddiant er mwyn gosod fframweithiau addysgol clir a monitro ansawdd yr hyfforddiant.
- Sefydlu Cronfa Arloesi i gefnogi practisau i ddatblygu eu timau.
- Datblygu a sefydlu rolau cynorthwyyr gofal iechyd y geg mewn timau deintyddol.
- Gweithio gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru i edrych ar achredu sgiliau uwch Ymarferwyr Deintyddol Cyffredinol mewn meysydd deintyddol arbenigol.

Y prif flaenoriaethau ar gyfer 2018-2021 a thu hwnt – sut beth fydd llwyddiant trawsnewid mewn Deintyddiaeth:

Sefydli'r Bwrdd Rhaglen Trawsnewid o grwpiau presennol er mwyn cryfhau'r arweinyddiaeth genedlaethol a ffocws i ysgogi, dilysu a rhannu.

1. Mynediad amserol at ofal deintyddol y GIG sy'n canolbwyntio ar waith atal:

- Cynnydd o un flwyddyn i'r llall yn nghyfran y bobl sydd wedi gweld ymarferydd deintyddol y GIG yn ystod y 2 flynedd diwethaf (1 flwyddyn i blant) ym mhob Bwrdd Iechyd
- Bydd unrhyw un sy'n cael poen deintyddol sy'n effeithio ar eu bywyd bob dydd yn cael triniaeth ddeintyddol effeithiol cyn pen 48 awr ac yn cael cynnig amserol i ddod yn ôl a chael Asesiad cynhwysfawr o Anghenion ac Iechyd y Geg (OHNA)
- Darparu cyngor ataliol allweddol a 'disgwyliadau' ydy'r arfer mewn ymarfer clinigol

2. Newid wedi'i gynnal i'r system gyfan ar sail diwygio contractau:

- Cyflwyno cyflym o'r practisau deintyddol sydd â chontractau GIG mewn rhaglen ddiwygio (0 23 i 50 yn 2018 a chynnydd ar ôl hynny nes eu bod i gyd wedi cael eu cynnwys erbyn 2021)
- Cytuno ar a gweithredu'r gwerth isaf sy'n dderbyniol ar gyfer Unedau Gweithgarwch Deintyddol/Unedau Gweithgarwch Orthodontig mewn contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol/PDS yng Nghymru erbyn mis Mawrth 2019
- Cyfran y contractau sy'n cael eu llywodraethu gan fesurau ar wahân i Unedau Gweithgarwch Deintyddol/Unedau Gweithgarwch Orthodontig (mesurau mynediad, angen a chanlyniadau) sy'n cael eu defnyddio mewn penderfyniadau ynghylch datblygu gwasanaeth a monitro perfformiad
- Defnyddio mwy ar y tîm cyfan

3. Timau sy'n cael eu hyfforddi, eu cefnogi ac sy'n cyflawni:

- Anogaeth ar lefel weithredol, gofal sylfaenol/arweinyddiaeth glinigol mewn lle yn y 7 Bwrdd Iechyd erbyn 2020
- Timau contractio deintyddol yn deall ac yn defnyddio'r modelau newydd o gontractio a monitro yn y 7 Bwrdd Iechyd erbyn 2019.
- Cyfleoedd i weithio'n wahanol yn cael eu gwireddu mewn arferion diwygio contractau
- Rhwydwaith Ymchwil Deintyddol Cymru (WDRN) yn ymgysylltu â phractisau sydd wedi sefydlu ac yn cynnwys nifer o arferion diwygio contract ym mhob bwrdd iechyd

- Grwpiau o ddeintyddion yn cwrdd ac yn gweithio'n gynhyrchiol gyda'i gilydd (fel arweinwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg) a gyda chlystyrau – mae modd eu cysylltu â Rhwydwaith Ymchwil Deintyddol Cymru
- Sefydlu Cyfadran gweithwyr proffesiynol gofal deintyddol a chyflwyno'r Rhaglen *Making Prevention Work in Practice* yn 2018
- Cronfa arloesi yn cefnogi ehangu gweithwyr proffesiynol gofal deintyddol sydd ar waith.
- Cyfleoedd cyflogaeth i gymunedau mewn practisau deintyddol fel rhan o godi pobl allan o dlodi – nifer yn cael eu cyflogi fel cynorthwyr gofal iechyd y geg.

4. Gwybodaeth a thystiolaeth am iechyd y geg yn sbarduno gwelliant

- Bydd anghenion a risg iechyd y geg yr holl gleifion a ddaw i gyswllt â gofal deintyddol sylfaenol yn cael eu hasesu, a bydd y rhain yn cael eu hegluro a'u cofnodi erbyn 2020
- Bydd pob atgyfeiriad at wasanaeth arbenigol yn cael ei wneud yn electronig, newid gwasanaeth/adnodd ymgynghorydd i ofal sylfaenol yn y 7 Bwrdd Iechyd a bydd darpariaeth arbenigol yn cael ei meincnodi
- Integreiddio gwybodaeth asesu anghenion i gynllunio gwasanaeth ar bob lefel mewn deintyddiaeth
- Defnyddir meincnodi i ddathlu cynnydd y gwasanaeth a Byrddau Iechyd o 2018 ymlaen
- Gostyngiad cyson yn nifer y plant sydd angen ac yn cael anesthetig cyffredinol i dynnu dannedd - gostyngiad o 50% erbyn diwedd 2020/21 wrth gymharu â 2011/12.

5. Gwella iechyd a llesiant y boblogaeth

- Parhau i wella iechyd y geg plant arolygon plant 5 a 12 oed
- Mwy o ymwybyddiaeth o newidiadau yn iechyd y geg y boblogaeth a'r heriau mewn oedolion fel canlyniadau Asesiad o Risgiau ac Anghenion Clinigol Iechyd y Geg (ACORN) ac arolwg 18-25 yn dylanwadu ar ddylunio a darparu gwasanaeth.
- Canser y Geg sy'n ymddangos yn hwyr a chlirio dannedd parhaol mewn pobl ifanc yn eu harddegau ac oedolion ifanc yn cael eu cofnodi ac ymchwilio i'r rhain gan Rwydweithiau Clinigol a Reolir i gefnogi gwella'n barhaus.